CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 10, 2017

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Ionawr 10, 2017 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams a John Hughes. Hefyd Henry M. Edwards a Peredur Jenkins.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 12, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Rhagfyr 12, 2016

Eitem 5.e. Cafwyd gwybod gan y tri ymgeisydd, sef Mr R.W. Britland, Mr A.M. Ashton a Mr Ifor W. Thompson, maent gyda insiwrans 'Public Liability'. Mae angen penodi un i gynnal a chadw'r fynwent.

Penderfynwyd penodi Mr A.M. Ashton i wneud y gwaith.

Eitem 10.b. Oes person gyda diddordeb i fod yn Glerc?

Penderfynwyd parhau gwneud ymoliadau am Glerc newydd.

5. Materion Ariannol

a. Anfonwyd (16/12/2016) manylion cyfrifon i'r aelodau bydd o ddefnydd i benderfynu praesept 2017 / 2018 yn ein cyfarfod.

Penderfynwyd rhoi llai o arian rhodd i sefydliadau i gael cytbwys rhwng Incwm a Gwariant.

b. Llythyr (14/12/2016) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen i ni ddarparu manylion praesept am 2017 / 2018. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 27, 2017.

O'r wybodaeth manylion cyfrifon (Eitem a.) penderfynwyd codi'r praesept i £7,500.

c. Llythyr (14/12/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent yn rhoi gwybod maent yn tynnu'n ol yr anfoneb tuag at cwrs hyfforddiant ar Ddealltwriaeth o'r Gyfraith cynhalwyd yn Bala. Mae hyn oherwydd anfodlonrwydd gydag ansawdd yr hyfforddiant.

ch. Llythyr (16/12/2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2017-18. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 £7.57, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.57 x 378 = £2,861.46.

d. Llythyr (Rhagfyr 2016) oddi wrth The Pension Regulator ynglŷn rhoi staff mewn cynllun pensiwn a thalu i mewn iddo h.y. 'Cofrestru awtomatig'. Bydd ein dyletswyddau yn dechrau ar Chwefror 1, 2017.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i ein cyfrifydd E.W. Owen a'i Chwmni.

dd. Derbyniwyd (08/12/16) £1,262.55 oddi wrth Cyngor Gwynedd at ad-daliad am dorri llwybrau cyhoeddus Bontddu a Llanelltyd.

e. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr, 2016: £8,155.33.

f. Derbyniwyd (11/1/2017) bill am £225 oddi wrth Janet Edwards am ofalu am doiledau cyhoeddus Bontddu am y cyfnod Hydref, Tachwedd a Rhagfyr.

Penderfynwyd talu'r bil.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu)) (Cymru) 2012.

Cais cynllunio NP5/65/343. Mae'r Awdurdod yn caniatau Amnewid ty. Heddwch, Llanelltyd.

b. Cais cynllunio NP5/65/322A. Codi lefel y to i'r adain ddwyrain a ports, adnewyddu to y cowlas mewn llechi, gosod 3 ffenestr to, codi wal gynnal carreg a theras. Borth Cottage, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (14/12/2016) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod maent am adnewyddu rhwystrau diogelwch ar ffordd A496 yn Borthwnog.

b. Llythyr (19/12/2016) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn rhoi gwadd i drafod ei fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Bydd digwyddiad yn Llandudno, Llanbedr Pont Steffan a Y Fenni.

c. Llythyr (21/12/2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru gyda thaflen yn rhoi gwybodaeth am yr etholiad yn Mai 4, 2017.

ch. Llythyr (22/12/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Mae cwrs (Cymraeg) hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol yn Neuadd Goffa, Penrhyndeudraeth ar ddydd Iau, Chwefror 2, 2017 am 6.30yw.

Llythyr (3/1/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae'r cwrs wedi ei gynllunio i helpu Clercod ac aelodau gyda'r broses archwiliad allanol.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer fod yn bresennol.

ch. Llythyr (6/1/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Mae cwrs (Saesneg) hyfforddiant Cyfarfod y Cyngor yn Cyngor Tref Machynlleth, Y Plas, Heol Aberystwyth, Machynlleth ar ddydd Mawrth, Ionawr 17, 2017.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Mae gwaith ar Ysgol Llanelltyd yn mynd yn ei flaen fel mae disgwyl. Mae'r broses o benodi staff wedi cychwyn.

b. Mae gwaith ar y cylchfan ar ffordd A470 / A487 wedi cychwyn. Mae am anfon plan o'r cynllun i'r aelodau. Roedd syniad cael Jones Bros., contractwr y gwaith, i roddi rhywbeth i'r gymuned.

10. Materion Brys

a. Mae angen rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo gwastraff sydd ar ochr ffordd A496 yn Bontddu.

b. Mae angen holi Rheolwr Eiddo Gwynedd, Cyngor Gwynedd os mae amod gyfreithiol ynglŷn â thir ac adeilad Ysgol Bontddu. Mae hyn oherwydd diffyg gwybodaeth i ateb trigolion ar y mater, yn enwedig gyda'r ysgol wedi ei chau a ddim yn cael ei defnyddio.